Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Cyfarfod: **Bwrdd Plismona**
Lleoliad: **Ystafell Gynadledda SCHTh**
Dyddiad: **2 Mawrth 2016**
Amser: **10:00 – 10:45**

**CRYNODEB CYHOEDDUS**

| | |
|---|---|
| **Aelodau:** | Mr Christopher Salmon, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (CHTh)<br>Prif Gwnstabl Simon Prince QPM (PG)<br>Mrs Jayne Woods, Prif Swyddog Ariannol (PSA)<br>Mr Adrian Williams, Cyfarwyddwr Adnoddau (CA) |
| **Hefyd yn Bresennol:** | Dr Helen Morgan-Howard, Pennaeth Staff, SCHTh (HM-H)<br>Uwch-arolygydd Huw Meredith, Gweithrediadau Arbenigol (HM)<br>Arolygydd Mark McSweeney, Swyddog Staff (MMS)<br>Mrs Claire Bryant, Rheolwr Swyddfa, SCHTh (CB) |

| CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 24/02/16 | | |
|---|---|---|
| **Rhif Cam Gweithredu** | **Crynodeb** | **Cynnydd** |
| **PB 571** | **Yr Heddlu i ateb cwestiynau a godwyd gan DdGHTh mewn perthynas â'r prosiect Brysbennu Iechyd Meddwl** | **Ar waith** |
| **PB 572** | **Ystyried adolygu cofnodi DCO** | **Ar waith** |
| **PB 573** | **DBG i sefydlu atebion i gwestiynau a godwyd gan DdGHTh mewn perthynas ag Ymddiriedolaeth Lucie Blackman cyn ymrwymo i'r cyfraniad ariannol** | **Ar waith** |
| **PB 574** | **DGHTh i ymateb i 'Beiciau Gwaed Cymru' mewn perthynas â chadw beiciau modur** | **Ar waith** |

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Chwefror a materion yn codi**

Eglurodd y CHTh y gofynion i gyflawni cam gweithredu PB 572. Awgrymwyd cynnal hap sampl o ddatrysiadau a ddefnyddiwyd sy'n arwyddocaol yn ystadegol er mwyn deall pa opsiynau sy'n cael eu defnyddio.

Cytunodd y CHTh i ad-drefnu'r agenda er mwyn rhyddhau HM yn ôl i'w ddyletswyddau gweithredol.

**Cerbydau Amaethyddol**

Dywedodd y CHTh ei fod wedi derbyn ymateb y PG ar y pryderon a godwyd gan Undeb Amaethwyr Cymru ac Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr. Cafwyd trafodaeth, gyda HM yn dweud bod cyfres o sioeau teithiol yn cael eu trefnu ledled HDP i godi ymwybyddiaeth

o reoliadau o ran defnyddio'r ffordd mewn perthynas â cherbydau amaethyddol. Anogodd y CHTh bod y sioe deithiol yn ymweld â Sir Drefaldwyn mor fuan â phosibl, gan fod hun yn destun y rhan fwyaf o bryderon sy'n cael eu codi â'r CHTh. Dywedodd y CHTh y byddai'n ymateb i Ffermwyr Sir Drefaldwyn i amlinellu cynlluniau'r Heddlu, gan sicrhau y byddai'r sioe deithiol yn ymweld â'u hardal.

**Diweddariad y Prif Gwnstabl**

Dywedodd y PG fod cyfanswm o 5 swyddog ac aelod staff wedi'u hatal o'u gwaith ar hyn o bryd. Bu'r diwrnod ymgyfarwyddo ymgeiswyr CHTh ar 29 Chwefror yn llwyddiannus, a chanmolodd y PG staff SCHTh a oedd yn rhan o'r digwyddiad am eu hymddygiad proffesiynol. Adroddodd y PG fod y rhai a oedd yn bresennol o'r Comisiwn Etholiadol hefyd yn ymddangos fel pe baent yn fodlon. Rhoddodd y PG ddiweddariad ar ddigwyddiadau gweithredol allweddol, gan gynnwys gwrthdrawiad traffig y ffyrdd angheuol yn Llanarthne, atafaelu arfau saethu o unigolyn yr oedd ei feddyg teulu wedi mynegi pryderon yn ei gylch, a dedfrydu unigolyn a oedd yn gysylltiedig â chylch pedoffiliaid i 15 mlynedd o garchar.

**Diweddariad Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu**

Roedd CHTh wedi cwrdd â'r Cynghorydd Emlyn Dole yr wythnos hon mewn perthynas â materion ystadau, a byddai'n cynnal cyfarfod pellach â chynrychiolwyr o'r heddlu, SCHTh a Chyngor Sir Caerfyrddin yr wythnos nesaf. Adroddodd y CHTh fod y ddau barti'n ystyried mwy o opsiynau. Mynychodd y CHTh lansiad y prosiect braenaru ar gyfer menywod yn Hwlffordd. Tynnodd CHTh sylw at y materion ystadau parhaus o ran y Canolfannau Cyfeirio Ymosodiadau Rhyw yn Bow Street a'r Drenewydd gan ddweud bod angen eu datrys ar frys. Cynhaliodd y CHTh ddiwrnod Eich Llais yn Aberystwyth dydd Llyn, lle codwyd nifer o bryderon cymunedol ag ef.

**Cam Gweithredu: MMS i symud materion ystadau yn eu blaen o ran Canolfannau Cyfeirio Ymosodiadau Rhyw ar frys**

**Diweddariad y Prif Swyddog Ariannol**

Dywedodd y PSA nad oedd ganddi unrhyw ddiweddariadau ar gyfer yr aelodau.

**Diweddariad y Cyfarwyddwr Adnoddau**

Cadarnhaodd y CA y byddai'r diweddariad Kelvin Connect yn cael ei gyflwyno wythnos nesaf, a fyddai'n cynnwys y fersiwn Saesneg o'r Datganiadau Tyst Electronig ac Olrhain

Fy Nhrosedd. Dywedodd y CA y byddai adroddiad ar brosiectau gwella parhaus yn cael ei gyflwyno i'r Grŵp Prif Swyddogion mis nesaf. Byddai gweithdy ar gyfer lansio'r gwaith taith dioddefydd yn cael ei gynnal wythnos nesaf. Gofynnodd y CHTh sut oedd hyn yn cysylltu â'r adolygiad o wasanaethau ar y cyd sy'n cael ei gynnal ar hyn o bryd gan y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol. Ystyriodd y CA ei fod yn ddarn o waith ar wahân. Gofynnodd y CHTh am sicrhau ymgynghori â'r DGHTh a'r Cyfarwyddwr Comisiynu o ran y berthynas rhwng y ddau faes gwaith.

**Cam Gweithredu: DGHTh a'r Cyfarwyddwr Comisiynu i nodi'r cysylltiad rhwng y prosiect taith dioddefydd ac adolygiad o wasanaethau ar y cyd y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol.**

Nododd y CHTh fod Cwmni TGCh yr Heddlu wrthi'n ymgysylltu ag adran TG HDP a Microsoft i drafod estyn y drwydded gyfredol hyd nes y bydd trwyddedau cenedlaethol Cwmni TGCh yr Heddlu'n dod i rym. Unwaith y byddai'r drafodaeth hon yn dod i ben, gwneir penderfyniad ynghylch y trwyddedau. Roedd y CHTh yn ymwybodol fod angen penderfyniad mewn perthynas â thrwyddedau Kelvin Connect, ac roedd yn disgwyl adborth gan Gwmni TGCh yr Heddlu mewn perthynas â'r mater.

**Oedolion Priodol**

Dywedodd y PSA ei bod hi wedi trafod y mater â'r Cyfarwyddwr Cyllid, y Pennaeth Dalfeydd a'r Cyfarwyddwr Comisiynu. Roedd y Pennaeth Dalfeydd yn paratoi adroddiad yn manylu'r defnydd a'r gost o ran y cynllun Oedolion Priodol i'w ystyried yng nghyfarfod Bwrdd Plismona'r wythnos nesaf. Cytunwyd bod angen ystyried y cyd-destun o gwmpas y defnydd o'r cynllun er mwyn deall pam fod y costau amcangyfrifol cychwynnol a'r gwir gostau mor wahanol. Gofynnodd y CHTh am gymharu defnydd ag ardaloedd heddlu eraill.

**Cam Gweithredu: PSA i ddarparu cymhariaeth o ddefnydd o'r cynllun Oedolion Priodol ag ardaloedd Heddlu eraill**

**Unrhyw Fusnes Arall**

***Gohebiaeth a dderbyniwyd***

*Systemau Cerbydau i Ridiau Parhaus*

Cododd y CHTh lythyr a dderbyniwyd gan Mark Williams AS mewn perthynas â chwmni yng Ngheredigion sy'n cyflawni gwaith technolegol o ran cerbydau gwasanaethau brys. Cytunodd y PG y byddai'r wybodaeth yn cael ei hystyried a byddai cynrychiolydd o'r Heddlu'n cysylltu os ydynt yn dymuno symud ymlaen â'r mater.

*Ceisiadau Arfau Saethu*

Tynnodd y CHTh sylw'r PG at ohebiaeth a dderbyniwyd gan werthwr arfau saethu sydd wedi'i leoli yn Nyfed-Powys a oedd wedi llunio canllawiau ar sut i gwblhau ceisiadau am drwyddedau arfau saethu. Roedd yr unigolyn yn disgwyl adborth gan yr adran arfau saethu o ran addasrwydd y canllawiau, ac anogodd y CHTh y dylid dilyn hyn.

**Cam Gweithredu: Y PG i ddilyn ymateb gan yr adran arfau saethu mewn perthynas â chanllawiau ar gyfer cwblhau ceisiadau am drwyddedau arfau saethu**

***Materion eraill a godwyd***

Nododd y CHTh bod y swydd Cyfarwyddwr Cynorthwyol wedi'i hysbysebu, ond nid oedd cyfeiriad at y sector fasnachol wedi'i wneud yn unol â'i gais mewn cyfarfod cynharach. Sicrhaodd y CA ei fod wedi'i gynnwys.

Gofynnodd HM-H am sgwrs gyda'r PG a'r CHTh yn dilyn y cyfarfod â'r swydd Dirprwy Brif Gwnstabl Cymru Gyfan, a chytunodd y PG i hyn.

| CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 02/03/16 | | |
|---|---|---|
| **Rhif Cam Gweithredu** | **Crynodeb o'r Cam Gweithredu** | **I'w symud yn ei flaen gan** |
| **PB 576** | **MMS i symud materion ystadau yn eu blaen o ran Canolfannau Cyfeirio Ymosodiadau Rhyw ar frys** | **MMS** |
| **PB 577** | **DGHTh a'r Cyfarwyddwr Comisiynu i nodi'r cysylltiad rhwng y prosiect taith dioddefydd ac adolygiad o wasanaethau ar y cyd y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol.** | **DGHTh / CC** |
| **PB 578** | **PSA i ddarparu cymhariaeth o ddefnydd o'r cynllun Oedolion Priodol ag ardaloedd Heddlu eraill** | **PSA** |
| **PB 579** | **Y PG i ddilyn ymateb gan yr adran arfau saethu mewn perthynas â chanllawiau ar gyfer cwblhau ceisiadau am drwyddedau arfau saethu** | **PG** |